



Ministry  
of Justice

# Pum cam at ddefnyddio'r Gwasanaeth Hawliadau Anafiadau Swyddogol ar-lein

[www.officialinjuryclaim.org.uk](http://www.officialinjuryclaim.org.uk)





Ministry  
of Justice



# Tabl Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>2</b>
Hawliadau Anafiadau Swyddogol (OIC).....	2
A allaf ddefnyddio'r gwasanaeth OIC? .....	2
<b>Cam 1: Gwybodaeth</b> .....	<b>3</b>
Dechrau arni.....	3
<b>Cam 2: Ymchwilio</b> .....	<b>3</b>
Atebolrwydd.....	3
<b>Cam 3: Tystiolaeth Feddygol</b> .....	<b>4</b>
Adroddiadau meddygol.....	4
Diwygio adroddiad .....	4
<b>Cam 4: Negodi</b> .....	<b>5</b>
Beth allaf hawlio amdano?.....	5
Costau ychwanegol a cholledion .....	6
<b>Cam 5: Setlo</b> .....	<b>7</b>
Cytuno ar setliad.....	7
Aros tan ddiwedd cyfnod y prognosis .....	7
Datrys anghydfod .....	7
Mynd i'r Llys.....	8
<b>Cymorth ychwanegol</b> .....	<b>8</b>
<b>Yn barod i wneud hawliad?</b> .....	<b>9</b>
<b>Gwybodaeth ychwanegol</b> .....	<b>9</b>
<b>Rhestr termau</b> .....	<b>9</b>

## Cyflwyniad

### Y Gwasanaeth Hawliadau Anafiadau Swyddogol (OIC)

Mae'r OIC yn wasanaeth sy'n helpu unigolion i wneud hawliad anaf personol drostynt eu hunain yn dilyn damwain traffig ar y ffordd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan Swyddfa'r Yswirwyr Cerbydau Modur ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gall unigolion ddefnyddio'r gwasanaeth OIC i wneud a setlo eu hawliad anaf personol eu hunain, lle mae'r hawliad hwnnw'n ymwneud â damwain traffig ar y ffordd ac yn werth £5,000 neu lai. Os credwch fod eich hawliad am anaf yn werth mwy na £5,000, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol cyn bwrw ymlaen.

Os credwch fod eich hawliad yn werth hyd at £5,000, dylech ddarllen y canllaw hwn a fydd yn egluro'r 5 prif gam at wneud hawliad anaf personol gan ddefnyddio OIC. Gallwch ddewis gwneud hawliad eich hun neu gyda chymorth cyfreithiwr neu weithiwr proffesiynol arall sy'n delio â hawliadau.

### A allaf ddefnyddio'r gwasanaeth OIC a beth wnaiff ar fy rhan?

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwch yn gymwys i ddefnyddio'r gwasanaeth os ydych wedi cael mân anafiadau fel anaf atchwipio, niwed i gyhyrau, briwiau,

cleisiau neu fân doriadau mewn esgyrn yn dilyn damwain traffig ar y ffordd nad oeddech ar fai amdani. Os credwch fod eich anafiadau wedi'u hachosi gan y ddamwain a gawsoch, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth OIC i wneud hawliad syml, rhwydd a diogel am iawndal.

Mae angen rhoi gwerth o hyd at £5,000 ar eich **anafiadau** (dyna'r gwerth a roddir ar tua 90% o fân anafiadau o ddamweiniau traffig ar y ffordd) ac ni chaiff **gwerth cyfan** eich hawliad fod yn fwy na £10,000. Bydd y gwasanaeth OIC a'r canllawiau sydd gydag ef yn eich helpu i amcangyfrif gwerth eich hawliad. Darperir rhagor o wybodaeth am y ffordd i wneud hyn yn ystod **Cam Dau** yn y broses.

### Defnyddiwch y gwasanaeth OIC i wneud hawliad:

- os ydych dros 18 oed ac wedi bod mewn damwain y credwch nad oeddech ar fai amdani yng Nghymru a Lloegr; ac
- os oeddech yn yrrwr neu'n deithiwr yn y car neu mewn cerbyd modur arall.

### Peidiwch â ddefnyddio'r gwasanaeth OIC i wneud hawliad:

- os yw'ch hawliad am anaf yn fwy na £5,000;
- os yw gwerth cyfan eich hawliad yn fwy na £10,000 (mae hyn yn cynnwys hawlio ad-daliad am unrhyw gostau ychwanegol am bethau fel triniaeth feddygol, neu gar i'w ddefnyddio yn lle'ch car chi tra oedd oddi ar y ffordd neu'n cael ei drwsio);
- os nad ydych yn gallu enwi'r gyrrwr sydd ar fai neu os ydych yn gerddwr, beiciwr, marchog neu feiciwr modur.

Yn yr amgylchiadau hyn, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol: efallai y gallwch hawlio ad-daliad am y costau cysylltiedig.

1	2	3	4	5
Gwybodaeth	Ymchwilio	Tystiolaeth Feddygol	Negodi	Setlo

Mae'r gwasanaeth ar gael i'w **dddefnyddio am ddim** ac mae wedi'i gynllunio fel y gallwch fwrw ymlaen â'ch hawliad a chael iawndal pa un a ydych yn cael cyngor neu help cyfreithiol neu beidio. Cewch ragor o wybodaeth yn y rhestr termau ar ddiwedd y canllaw hwn am rai o'r termau cyffredin y gallech ddod ar eu traws wrth ddarllen y ddogfen hon neu ddefnyddio'r gwasanaeth OIC.

## Cam 1: Gwybodaeth

### Dechrau arni i wneud hawliad

Y cam cyntaf i chi fydd darparu manylion y ddamwain a'ch anaf i OIC. Bydd hyn yn cymryd rhwng 20 a 30 munud fel arfer.

Bydd angen cael rhai eitemau penodol o wybodaeth wrth law yn cynnwys eich rhif Yswiriant Gwladol ac, os yw'n bosibl, rhifau cofrestru unrhyw gerbydau a oedd yn gysylltiedig â'r ddamwain. Bydd hefyd o gymorth i chi fod ag unrhyw adroddiadau heddlu wrth law os yw'r rhain gennych chi. Gorau po fwyaf o dystiolaeth y gallwch ei darparu am y ddamwain ar y dechrau. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y ddogfen 'Guide to making a claim' <https://www.officialinjuryclaim.org.uk/guide-to-making-a-claim/>

Gofynnir cwestiynau i chi hefyd am unrhyw anafiadau y credwch eu bod yn gysylltiedig â'r ddamwain. Gallwch fod yn dawel eich meddwl na fydd angen i chi fod ag unrhyw wybodaeth arbenigol, oherwydd cewch eich arwain drwy'r broses o nodi'ch anaf a bydd y gwasanaeth yn eich helpu i gysylltu ag arbenigwr meddygol i'ch archwilio a darparu adroddiad meddygol.

Os oes gennych dystiolaeth arall o blaid eich hawliad (fel lluniau dashcam), gallwch lanlwytho hon hefyd, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sydd gennych am unrhyw gostau neu golledion ariannol. Mae gwybodaeth ar gael am ychwanegu costau ychwanegol ar **Gam 4**.

## Cam 2: Ymchwilio

### Atebolrwydd a beth i'w ddisgwyl

Gellir defnyddio'r gwasanaeth OIC i gytuno ar atebolrwydd.

Os yw person yn atebol am eich anaf, mae'n golygu ei fod ar fai. Os addefir atebolrwydd, byddwch wedyn yn gallu hawlio iawndal am eich anaf. Os gwadir atebolrwydd, mae'n dweud nad yw ar fai. Os ydych yn anghytuno, gallwch herio'r penderfyniad drwy'r gwasanaeth OIC, neu gallwch ddewis gadael a bwrw ymlaen â'ch hawliad drwy'r Llys Hawliadau Bychain.

Mae'n bwysig gwybod pwy oedd ar fai am y ddamwain; gelwir hyn yn **gytuno ar atebolrwydd**.

### Datganiad o'r Gwir

Er mwyn cyflwyno'ch hawliad, gofynnir i chi lofnodi **Datganiad o'r Gwir** i gadarnhau'ch bod yn credu bod y ffeithiau a nodwyd yn eich hawliad yn rhai gwir a chywir. Mae hyn yn bwysig iawn. Gellir dod ag achos am ddirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir mewn dogfen a gafodd ei gwirhau gan **Ddatganiad o'r Gwir**.

Gall y parti arall fod yn llwyr atebol (roedd y bai i gyd arno ef), neu'n rhannol atebol (er enghraifft, lle'r oedd y ddau yrrwr ar fai i'r un graddau, neu wahanol raddau). Bydd hyn yn cael ei drafod rhwng y cwmnïau yswiriant perthnasol.

Os bydd yswiriwr y parti sydd ar fai (yswiriwr y gyrrwr arall fel arfer) yn addef atebolrwydd rhannol yn unig, gallwch herio hyn a chynnig cyfran wahanol o atebolrwydd. Er enghraifft, gallai ddweud ei fod ar fai 25% yn unig, ond gallech anghytuno ac ymateb drwy ddweud eich bod yn credu ei fod ar fai 50% yn lle hynny. Gallwch wneud hyn hyd at 3 gwaith drwy OIC, a bydd y gwasanaeth yn eich tywys drwy'r broses hon. Unwaith y bydd atebolrwydd wedi'i addef yn llwyr neu'n rhannol, gallwch symud wedyn i **Gam 3**. Os na allwch gytuno, gallech ddewis cychwyn achos llys; mae rhagor o wybodaeth am hyn yn ddiweddarach.

### Cam 3: Tystiolaeth Feddygol

#### Adroddiadau meddygol

Os cawsoch anaf atchwipio, bydd angen cael tystiolaeth feddygol i ategu'ch hawliad.

Mae Cam 3 yn dechrau unwaith y bydd atebolrwydd wedi'i addef yn llawn neu'n rhannol. Ar y cam hwn, byddwch yn cysylltu â darparwr adroddiadau meddygol a fydd yn gwneud archwiliad o'ch anafiadau. Bydd OIC yn mynd â chi drwy'r broses hon a gofynnir nifer o gwestiynau i chi am eich dewisiadau, er enghraifft ble fydddech chi am gael yr archwiliad meddygol. Wedyn byddwch yn dewis darparwr adroddiadau meddygol o restr sydd wedi'i chymeradwyo a'i darparu gan y gwasanaeth.

Bydd yr adroddiad a luniwyd gan yr arbenigwr yn darparu diagnosis o natur eich anafiadau a phrognosis o'ch cyfnod ymadfer disgwylidig. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau, bydd yr arbenigwr yn ei lanlwytho i system OIC er mwyn i chi ei adolygu.

#### Diwygio adroddiad

Ni allwch newid adroddiad meddygol yr arbenigwr, ond fe ddylech ei wirio am unrhyw wallau ffeithiol neu i weld a oes rhywbeth pwysig sydd heb ei gynnwys.

Dim ond wedi i chi adolygu'r adroddiad a chadarnhau eich bod yn fodlon y bydd yr adroddiad yn cael ei anfon at yr yswiriwr i'w ystyried.

#### Darparwr Adroddiadau Meddygol:

Mae dau fath o ddarparwr adroddiadau meddygol i chi ddewis rhyngddynt:

Arbenigwr Meddygol Uniongyrchol (DME) – arbenigwr meddygol cymwysedig, sef meddyg teulu neu ffisiotherapydd fel arfer, y byddwch yn cysylltu a chyfathrebu ag ef. Bydd y DME yn trefnu'ch apwyntiad gyda chi, yn delio ag unrhyw gwestiynau, yn eich archwilio ac yn llunio adroddiad meddygol ar eich cyfer.

Sefydliad Adroddiadau Meddygol (MRO) – sefydliad annibynnol a fydd yn cyfarwyddo arbenigwr meddygol cymwysedig i'ch archwilio a llunio adroddiad meddygol ar eich rhan. Bydd yr MRO yn eich helpu i drefnu apwyntiad ac yn delio ag unrhyw gwestiynau sydd gennych am yr adroddiad meddygol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond un adroddiad meddygol y bydd ei angen, ond fe ellir cael adegau pan fydd angen cael adroddiad ychwanegol. Gall hyn ddigwydd am fod yr arbenigwr cyntaf yn ei argymhell neu os oes angen mwy o amser i gadarnhau bod y prognosis yn gywir.

Os oes angen cael ail adroddiad, bydd hynny wedi'i argymhell fel arfer yn yr adroddiad cyntaf gan yr arbenigwr meddygol, a dywedir wrth yswiriwr y parti sydd ar fai. Bydd yswiriwr y parti sydd ar fai yn gallu helpu drwy drefnu a thalu am yr adroddiad hwn ar eich rhan. Fodd bynnag, gallwch hefyd ddewis cael yr adroddiad ychwanegol hwn eich hun a pheidio ag ymwneud â'r yswiriwr. Os penderfynwch wneud hyn, bydd yn rhaid i chi dalu am yr adroddiad eich hun, er y gallwch hawlio ad-daliad am y gost hon yn ystod y broses negodi.

## Cam 4: Negodi

### Beth allaf hawlio amdano?

Ni ddylai gwerth terfynol eich hawliad fod yn fwy na £10,000 a bydd hyn yn dibynnu ar yr iawndal am eich anaf ac unrhyw golledion eraill a gawsoch o ganlyniad i'r ddamwain neu'r anaf. Gall colledion ychwanegol gynnwys colli enillion neu gostau teithio am ddod i apwyntiadau meddygol.

Gelwir y digollediad am eich anaf yn iawndal am boen, dioddef a cholli amwynder (PSLA) a gellir ei alw'n 'iawndal cyffredinol'. Mae iawndal PSLA ar gael am:

- **Anafiadau atchwipio yn unig** – os cawsoch anaf (neu anafiadau) atchwipio yn unig i'ch gwddf, cefn neu ysgwydd, rhoddir gwerth ar hyn ar sail tariff anaf atchwipio yn unig. Hwn yw swm yr iawndal y gellir ei ddyfarnu a bennwyd ymlaen llaw, yn ôl y math o anaf a gafwyd ac am faint y mae'n para. Mae manylion y symiau sy'n daladwy ar gael yma: [www.legislation.gov.uk/ukSI/2021/642/regulation/2/made](http://www.legislation.gov.uk/ukSI/2021/642/regulation/2/made)
- **Anafiadau cymysg** – yw anafiadau lle cawsoch anaf atchwipio ynghyd ag anaf neu anafiadau sydd heb fod o ganlyniad i atchwipio i ran arall o'ch corff, er enghraifft bys wedi'i dorri. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y tariff yn gymwys i'r anaf atchwipio yn unig, a bydd angen rhoi gwerth ar eich anafiadau eraill ar wahân. Mae gwybodaeth am y ffordd i wneud hyn yn y canllaw mwy manwl 'Guide to making a claim' sydd ar gael yma: <https://www.officialinjuryclaim.org.uk/guide-to-making-a-claim/>

### Amgylchiadau eithriadol

Os cawsoch anaf atchwipio neu anaf atchwipio ynghyd â mân anaf seicolegol a'ch bod yn teimlo bod y rhain yn eithriadol, gallech fod â hawl i gael cynnydd o 20% yn swm y tariff.

Dylech egluro pam rydych yn credu bod eich anaf neu'r amgylchiadau cysylltiedig â'ch anaf yn rhai eithriadol wrth yr arbenigwr meddygol, a fydd yn gwneud sylw am y mater hwn.

Gall yswiriwr y parti sydd ar fai a/neu y llys gytuno neu anghytuno bod eich anaf neu anafiadau yn rhai eithriadol a gallai hyn alw am gael sgyrsiau ychwanegol.



- **Anafiadau sydd heb fod o ganlyniad i atchwipio** – os nad yw'ch anafiadau'n cynnwys anaf atchwipio, yna ni fydd y tariff (uchod) yn gymwys i chi. Er hynny, fe ddylech ddefnyddio'r gwasanaeth OIC i wneud hawliad, ond bydd angen rhoi gwerth ar eich anafiadau ar wahân. Mae gwybodaeth am y ffordd i wneud hyn yng nghanllaw mwy manwl OIC 'Guide to making a claim'.



Er mwyn rhoi help ychwanegol i bennu gwerth yr hawliad, mae rhannau perthnasol o Ganllawiau'r Coleg Barnwrol ar Asesu Iawndal Cyffredinol mewn Achosion Anaf Personol wedi'u cynnwys yn yr atodiad i lyfryn 'Guide to making a claim' OIC.

Mae hwn yn llyfr a ddefnyddir gan gyfreithwyr a barnwyr i'w helpu i asesu gwerth hawliad sy'n cynnwys lefelau digolledu a awgrymwyd ar gyfer gwahanol fathau o anafiadau. Canllawiau yn unig yw'r symiau sydd yn y cyhoeddiad hwn a dylai holl amgylchiadau'r ddamwain gael eu hystyried wrth asesu gwerth eich anafiadau.

### Costau a cholledion ychwanegol

Gellir ychwanegu mathau eraill o golled at eich hawliad yn rhan o'r broses setlo ar system OIC. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Iawndal arall cysylltiedig â'r ddamwain (a elwir hefyd yn 'iawndal arbennig')** – term sy'n cyfeirio at ddigollediad i dalu am y colledion ariannol a threuliau sydd wedi'u hysgwyo'n uniongyrchol o ganlyniad i'r ddamwain neu unrhyw anafiadau cysylltiedig. Rhai enghreifftiau yw cost unrhyw driniaeth feddygol gynnar neu golli enillion o ganlyniad i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith yn dilyn y ddamwain. Os gwneir hawliad am iawndal arbennig, rhaid rhoi tystiolaeth o'r golled i'w ategu, fel derbynebaw neu anfonebau am driniaeth ffisiotherapi, a bydd angen i chi lanlwytho'r dystiolaeth hon i'r gwasanaeth OIC. Gelwir hwn weithiau'n 'iawndal protocol arall'.
- **Costau cerbyd heb brotocol** – colledion a ysgwyddir gan gwmni neu sefydliad sydd wedi helpu/cynorthwyo yn dilyn y ddamwain. Er enghraifft, efallai y bydd eich yswiriwr wedi talu'ch costau trwsio, neu efallai eich bod wedi cael car wedi'i logi i'w ddefnyddio tra bydd eich car chi oddi ar y ffordd. Fel arfer bydd y broses hon yn cael ei chyflawni ar wahân i'ch hawliad am anaf.

#### Costau cerbyd heb brotocol

Telir am y costau hyn fel arfer gan yswiriwr y parti sydd ar fai, ond dylech wirio hyn oherwydd, mewn rhai achosion, gallech orfod eu talu'ch hun. Os na fydd y rhan hon o'ch hawliad wedi'i datrys erbyn i'ch hawliad am anaf gael ei setlo, bydd y gwasanaeth OIC a'r canllawiau ategol yn darparu rhagor o wybodaeth am y ffordd i fwrw ymlaen â hyn.



## Cam 5: Setlo

### Cytuno ar setliad

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r holl gamau i gychwyn eich hawliad, rhaid i'r yswiriwr wneud cynnig i chi o fewn 20 diwrnod busnes. Pan fyddwch yn mewngofnodi wedyn i'r gwasanaeth OIC, gallwch weld y cynnig a phenderfynu ar eich camau nesaf.

Gallwch benderfynu a fyddwch:

- yn derbyn y cynnig;
- yn herio'r cynnig; neu
- yn aros tan ddiwedd cyfnod y prognosis ar gyfer eich anaf.

### Aros tan ddiwedd cyfnod y prognosis

Gallech fod am aros tan ddiwedd cyfnod y prognosis sydd yn eich adroddiad meddygol. Mae hyn yn golygu yr hoffech aros i weld a fyddwch yn ymadfer o fewn y cyfnod a nodwyd gan yr arbenigwr meddygol a luniodd eich adroddiad. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i chi benderfynu a yw'r adroddiad yn gywir. Wedyn gallwch dderbyn yr adroddiad a pharhau â'ch hawliad, neu ofyn am adroddiad pellach os yw symptomau'n para.

Os byddwch yn aros tan ddiwedd cyfnod y prognosis, gallech gael gwybodaeth ychwanegol, ond gall olygu hefyd y bydd oedi cyn setlo. Unwaith y byddwch yn derbyn y cynnig, bydd eich hawliad wedi'i gau ac ni ellir ei ailagor. Bydd yr yswiriwr yn cysylltu â chi wedyn i drefnu taliad.

### Datrys anghydfod

Os na fyddwch yn derbyn y cynnig gan yswiriwr y parti sydd ar fai, rhaid i chi gadarnhau pa ran ohono nad ydych yn cytuno â hi. Wedyn gallwch un ai:

- dychwelyd yr hawliad i'r yswiriwr a all ddiweddarau ei gynnig (bydd yn bosibl lanlwytho tystiolaeth ychwanegol os bydd angen);
- awgrymu cynnig gwahanol, a elwir yn wrthgynnig (dim ond 3 gwaith y gellir gwneud hyn);
- os yw cynnig yr yswiriwr yn llai na'r disgwyl, efallai am nad ydych wedi darparu digon o dystiolaeth, gallwch lanlwytho unrhyw dystiolaeth berthnasol ychwanegol (fel derbynebaw) i ddangos y dylid gwneud cynnig mwy; neu
- os na ellir dod i gytundeb, gallech fod am gychwyn achos llys.

### Mynd i'r Llys

Os na allwch gytuno ar rai agweddau o'ch hawliad â'r yswiriwr, mae'n bosibl y bydd materion yn cael eu setlo drwy'r llysoedd. Os ewch i'r llys, byddwch yn gorfod talu am hyn. Mae gwybodaeth ar gael yma am faint y bydd yn ei gostio i chi: <https://www.gov.uk/court-fees-what-they-are>

Os bydd angen i chi dalu unrhyw ffioedd llys, gallwch geisio adennill y gost hon oddi wrth yr yswiriwr os enillwch yr achos. Gallech fod yn gymwys i gael gostwng neu hepgor eich ffioedd llys, yn ôl eich amgylchiadau ariannol.

## Mynd i'r Llys

Dylai'r OIC roi'r gallu i chi setlo'ch hawliad heb fod angen dod ag achos llys. Fodd bynnag, os na allwch gytuno ar atebolrwydd, setlo neu os oes anghydfod gwahanol rhyngoch chi ac yswiriwr y parti sydd ar fai ynghylch ffeithiau'r ddamwain neu'r hawliad, mae'n bosibl y bydd angen mynd â materion i'r llys. Mewn rhai sefyllfaoedd, y llys fydd yn penderfynu ar y mater, a gallwch ddychwelyd i'r gwasanaeth OIC i gwblhau'ch hawliad. Mewn amgylchiadau eraill, gallai'ch hawliad aros yn y llys a chael ei ddatrys ganddo.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth hefyd i'r rheini sydd ag angen mynd i'r llys. Os byddwch yn ymadael â'r system, bydd OIC yn creu 'pecyn llys' ac yn llenwi'r 'ffurflen gais' briodol â'ch holl wybodaeth o'r system. Bydd hyn yn eich galluogi i gychwyn y broses llys os bydd angen. Os ewch i'r llys, byddwch yn gorfod talu am hyn fel arfer. Mae gwybodaeth am y ffioedd ar gael yma: <https://www.gov.uk/court-fees-what-they-are>.

Os bydd angen i chi dalu unrhyw ffioedd llys, gallwch geisio adennill y gost oddi wrth yr yswiriwr os enillwch yr achos. Gallech fod yn gymwys i gael gostwng neu hepgor eich ffioedd llys, yn ôl eich amgylchiadau ariannol.

## Cymorth Ychwanegol

Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i fod mor hawdd ei ddefnyddio â phosibl a does dim angen i chi ddeall termau a phrosesau cyfreithiol i wneud hawliad. Bydd y system yn eich tywys drwy'r broses, ond mae help a chymorth ychwanegol ar gael os bydd ei angen.

Mae'r canllaw cynhwysfawr 'Guide to making a claim' ar gael i gynnig rhagor o help os bydd angen. Dim ond os bydd arnoch angen rhagor o help i ddelio â rhan benodol o'r broses y bydd angen i chi wneud defnydd o'r ddogfen hon. Does dim angen i chi ei lawrlwytho neu ei darllen oni bai fod angen help arnoch i ddelio â mater penodol. Mae'r canllaw ar gael yma: <https://www.officialinjuryclaim.org.uk/guide-to-making-a-claim/>

Yn ogystal â hyn, mae canolfan wasanaeth bwrpasol ar gael i gynnig cymorth ychwanegol (nad yw'n ymwneud â'r gyfraith) i ddefnyddio'r gwasanaeth ac i ateb ymholiadau cyfieithu lle bo angen. Mae staff y ganolfan alwadau hefyd yn gallu helpu hawlwr sydd heb y gallu i ddefnyddio'r system ar-lein drwy ddefnyddio fersiwn arall o'r broses sydd ar bapur. Nid yw OIC yn darparu cyngor cyfreithiol ond bydd yn eich cyfeirio at fannau lle mae ar gael os bydd angen.

Gallwch gysylltu â chanolfan Gwasanaeth Porth OIC ar **0800 118 1631**. Bydd gweithredwyr ar gael i ddarparu cymorth rhwng 09:00 a 17:00 ar ddyddiau'r wythnos, heb gynnwys gwyliau banc.



## Yn barod i wneud hawliad?

Os ydych, ewch i wefan OIC i ddechrau arni ([www.officialinjuryclaim.org.uk](http://www.officialinjuryclaim.org.uk)). Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl, yn annibynnol ac ni fydd yn gwneud elw o'ch hawliad. Bydd cymorth ar gael, yn ôl yr angen, ar y camau i'w cymryd i wneud a setlo'ch hawliad ac ni fydd eich data personol byth yn cael eu gwerthu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ar gael, yn cynnwys cwestiynau cyffredin, ar wefan Gov.UK yma: <https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq>

## Rhestr termau

Mae'r rhestr termau isod yn cynnwys termau ac ymadroddion cyffredin y gallech ddod ar eu traws wrth ddefnyddio'r gwasanaeth OIC:

<b>Term:</b>	<b>Esboniad:</b>
Adroddiad meddygol	Mae adroddiad meddygol yn asesiad annibynnol a diduedd o'ch anafiadau. Caiff ei baratoi gan arbenigwr meddygol achrededig yn dilyn archwiliad a bydd yn cynnwys amcangyfrif o'r cyfnod ymadfer (a elwir yn brognosis) a manylion unrhyw driniaeth sydd wedi'i hargymell. Gellir defnyddio'ch adroddiad meddygol yn y llys i ategu hawliad.
Adsefydlu	Yn dilyn damwain, mae adsefydlu'n gallu helpu unigolion a anafwyd i ymadfer neu ymaddasu i'r amgylchiadau y maent yn eu cael eu hunain ynddynt. Yn ôl natur yr anaf, gall adsefydlu helpu i wella'r gallu i symud o gwmpas a chynyddu lefelau gweithgarwch a lleihau'r amser y bydd angen i'r parti a anafwyd gael triniaeth feddygol.
Anaf atchwipio	Mae anaf atchwipio yn anaf i feinweoedd meddal y gwddf, cefn neu ysgwydd sydd wedi'i ddiffinio yn Rhan 1 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil 20181. Mae anaf atchwipio yn cael ei achosi fel arfer gan symudiad

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/29/part/1/crossheading/whiplash-injuries/enacted>

	<p>sydyn o'r pen, er enghraifft mewn damwain traffig ar y ffordd neu wrth lithro neu gael codwm.</p>
Anafiadau Cymysg	<p>Mae hawliad 'anafiadau cymysg' yn hawliad am iawndal am anaf atchwipio ynghyd ag anafiadau corfforol eraill fel cleisiau, crafiadau, briwiau, ysgiadau neu streifiadau. Mae iawndal mewn hawliad o'r math hwn yn cynnwys iawndal penodedig am yr anaf atchwipio ac iawndal cyffredinol a negodir am yr anafiadau eraill.</p>
Atebolrwydd	<p>Defnyddir atebolrwydd i bennu pwy sydd ar fai am ddamwain traffig ar y ffordd. Gellir:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• addef atebolrwydd llwyr (derbyn yr holl gyfrifoldeb);</li><li>• addef atebolrwydd rhannol (derbyn rhywfaint o'r cyfrifoldeb neu gellir</li><li>• gwadu atebolrwydd (peidio â derbyn unrhyw gyfrifoldeb).</li></ul>
Damwain Traffig ar y Ffordd	<p>Mae damwain traffig ar y ffordd yn ddamwain sy'n arwain at anaf i unrhyw berson, yn codi o'r defnydd o gerbyd modur ar ffordd neu mewn man cyhoeddus arall yng Nghymru a Lloegr.</p>
Datganiad o'r Gwir	<p>Mae datganiad o'r gwir yn cadarnhau bod y ffeithiau a ddatganwyd gan yr hawlydd mewn dogfen (yn cynnwys ffurflen ar-lein) yn rhai gwir. Rhaid iddo gael ei lofnodi gan y parti, ei gyfaill cyfreitha neu gynrychiolydd cyfreithiol.</p>
Diffynnydd	<p>Y person y credwch ei fod ar fai am y ddamwain ac rydych yn gwneud hawliad yn ei erbyn fydd y "diffynnydd". Mae'r hawlydd a'r diffynnydd hefyd yn cael eu galw'n "bartïon" i'r achos.</p>
Digolledwr	<p>Fel arfer, y digolledwr yw'r cwmni yswiriant sy'n cynrychioli'r gyrrwr y credwch ei fod ar fai am ddamwain cerbyd modur. Fe'i gelwir hefyd yn 'yswiriwr y parti sydd ar fai'.</p>
Dirmyg Llys	<p>Mae Dirmyg Llys yn digwydd pan geir bod parti wedi amharchu, camarwain neu anufuddhau i'r llys. Rhai enghreifftiau yw anufuddhau i orchmynion llys/gwneud datganiadau anwir mewn dogfennau (yn cynnwys ffurflenni ar-lein) heb gred ddidwyll yn eu gwirionedd wedi'u gwirhau gan ddatganiad o'r gwir. Os canfyddir bod dirmyg wedi digwydd, gall hynny arwain at ddirwy, atafaelu asedau neu garchar.</p>

## Pum cam at ddefnyddio'r Gwasanaeth Hawliadau Anafiadau Swyddogol ar-lein

Hawlydd	Os byddwch yn gwneud hawliad anaf personol am iawndal yn dilyn damwain, fe'ch gelwir yn "hawlydd". Mae'r hawlydd a'r diffynnydd hefyd yn cael eu galw'n "bartïon" i'r achos.
Hawlydd Heb Gynrychiolaeth	Mae pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain drwy'r broses hawliadau ac sydd heb gyfreithiwr neu weithiwr proffesiynol arall i'w helpu yn cael eu galw'n 'hawlwyr heb gynrychiolaeth' yn y broses OIC. Os aiff yr hawliad i'r llys, gellir eu galw hefyd yn 'ymgyfreithwyr drostynt eu hunain'.
Iawndal a delir drwy'r Tariff Anaf Atchwipio	Mae'r tariff anaf atchwipio yn swm o iawndal y gellir ei ddyfarnu a bennwyd ymlaen llaw, yn ôl y math o anaf a gafwyd a pha mor hir y disgwylir iddo bara.
Iawndal am Boen, Dioddef a Cholli Amwynder (PSLA)	PSLA yw'r term cyfreithiol am y math o iawndal a ddyfernir i hawlydd i'w ddigolledu am anafiadau corfforol a seicolegol. Mae hyn yn cynnwys eu heffaith bosibl ar eu gwaith a/neu weithgareddau hamdden. Mae iawndal am PSLA hefyd yn cael ei alw'n iawndal cyffredinol.
Iawndal arall cysylltiedig â damwain neu 'iawndal arbennig'	Mae 'iawndal arbennig' yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at iawndal i dalu am golledion ariannol a threuliau sy'n gysylltiedig â'r ddamwain a gawsoch neu unrhyw anafiadau cysylltiedig. Rhai enghreifftiau yw'r gost am driniaeth feddygol gynnar neu am golli enillion o ganlyniad i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith yn dilyn y ddamwain. Mae angen profi hawliad am 'iawndal arbennig' ar sail rhyw fath o dystiolaeth o'r golled.
Sefydliad Adroddiadau Meddygol	Sefydliad annibynnol a fydd yn penodi arbenigwr meddygol achrededig i'ch archwilio a llunio adroddiad meddygol ar eich rhan.
Trwsio/Llogi drwy Gredyd	Trwsio/llogi drwy gredyd yw'r sefyllfa lle mae sefydliad trydydd parti wedi trwsio'ch cerbyd neu wedi cyflenwi car ar log yn ei le ar delerau credyd (h.y. heb dalu cost ymlaen llaw). Fel arfer bydd y darparwr yn hawlio'r costau'n ôl oddi wrth yswiriwr y parti sydd ar fai. Fodd bynnag, o dan gytundeb credyd, os na fydd y darparwr yn gallu adennill y gost oddi wrth yswiriwr y parti sydd ar fai, bydd yr hawlydd yn parhau'n atebol am dalu'r bil.
Yswiriwr y parti sydd ar fai	Defnyddir y term hwn i ddisgrifio'r cwmni yswiriant sy'n cynrychioli'r person sydd ar fai am y ddamwain. Gall y system OIC ei alw hefyd yn 'ddigolledwr'.



© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

